**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Mehefin 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Mehefin 2021 |

## PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2020/21

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2020/21 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yn y Cyngor Llawn ar yr 8 Gorffennaf 2021.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2020/21 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Mehefin 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mehefin 2021 |

## PWNC

Eitem 7:YSGOL ABERSOCH

## PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet, yn dilyn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb yr Adran Addysg i'r sylwadau hynny

i. Gymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol sarn Bach o 1 Ionawr 2022
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn ôl ym Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer ei dyfodol yn dilyn lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb i'r prif heriau mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ym Medi 2020, bu i'r Cabinet benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar 1 Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i'r Adran addysg gychwyn yr ymgynghoriad ar 5 Ionawr 2021 yn wreiddiol, ond gan na wnaeth yr un plentyn fynychu safle'r Ysgol ar y diwrnod hwnnw o ganlyniad i ofyniadau diweddaraf Covid-19, roedd anfodlonrwydd yn lleol nad oedd yr awdurdod wedi cyd-fynd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar "ddiwrnod ysgol". Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi addasiad dros dro i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a phenderfynwyd ail gyhoeddi'r ymgynghoriad yn dilyn yr 8fed o Ionawr 2021, a'i gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021.

Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol a bu i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb i'r sylwadau hynny cyn gwneud eu penderfyniad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Statudol a derbyniwyd sylwadau'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Mehefin 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Mehefin 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 8:YMATEB I'R ADRODDIAD "AIL GARTREFI - DATBLYGU POLISIAU NEWYDD YNG NGHYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr o dan y teitl "ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Awdur yr adroddiad yw Dr Simon Brooks. Nodwyd fod yr adroddiad yn ymchwilio i'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag ail gartrefi ac yn gwneud nifer o argymhellion polisi a fyddai modd eu defnyddio i ymateb i'r cynnydd cyson yn y niferoedd o ail gartrefi yn ein cymunedau.

Felly, mae gweithredu buan ar yr argymhellion a amlygir yn yr adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" yn gwbl hanfodol ac mae'r Cyngor yn gofyn felly i Lywodraeth Cymru eu mabwysiadu ar fyrder, gan ymgorffori'r addasiad i argymhelliad rhif 7 a nodir yn y tabl yn rhan 9 o'r adroddiad hwn

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.